

Amcanion Datblygu 2015-16 – DPA Chwarter 2

| BLAENORIAETHAU'R LLYTHYR CYLCH GORCHWYL | |
|--|--|
| <p>1. Ehangu mynediad at gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i bobl ble bynnag y maent yn byw (yng Nghymru a'r byd), hyrwyddo cyfranogiad ac ennyn diddordeb yn niwylliant a threftadaeth Cymru, yn arbennig ymysg grwpiau cymunedol a lleiafrifol dan anfantais:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ehangu presenoldeb y Llyfrgell ar draws Cymru, a rhoi cyfle i unigolion gael mynediad at wasanaethau, adnoddau a chasgliadau'r Llyfrgell yn eu cymunedau lleol • Datblygu a chyflwyno achos dros greu ail bwyt mynediad ar gyfer deunydd adnau cyfreithiol electronig yng Nghymru • Gosod y defnyddiwr yng nghanol datblygiadau gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth i ddefnyddwyr newydd a phresennol trwy Gymru, yn seiliedig ar eu hanghenion • Gweithredu'r system rheoli llyfrgell newydd sydd wedi ei chaffael ar y cyd a'r haen darganfod adnoddau i wella integreiddio technegol a'r gallu i ryngweithredu gyda sector addysg uwch yng Nghymru, gwella prosesau mewnol, a gwella mynediad ar-lein at gasgliadau'r Llyfrgell | |
| Dangosyddion perthnasol | |
| <p>Parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu model y Llyfrgell ar gyfer darparu mynediad i'r gymuned leol yn seiliedig ar y pwynt mynediad presennol ym Merthyr Tudful.</p> <p>Datblygu a chynnal pwyntiau mynediad ffisegol yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam erbyn Mawrth 2016.</p> | <p>Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo cynnal adolygiad cynhwysfawr a gwerthuso'r gweithgareddau a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma, a datblygir Rhaglen Partneriaeth Gymunedol wedi'i chostio erbyn Chwarter 4. Wrth ddatblygu'r Cynllun bydd dull rhaglen-gyfan yn cael ei ddefnyddio gan ddatblygu prosiectau unigol ar gyfer bob pwynt presenoldeb. Bydd y Cynllun yn dangos sut mae'r prosiectau partneriaeth yn sicrhau enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI), gan edrych ar ffactorau fel hyd a lled y prosiect, effaith y canlyniadau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol a rhoi gwerth mesuradwy i'r rhain.</p> <p>Merthyr - mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â darparu cynnwys gwerth-ychwanegol a threfnu Arddangosfa Thomas Stephens - a fydd yn agor yn ddiweddarach ym mis Hydref yn LIGC cyn iddi symud i Lyfrgell Ganolog Merthyr yn Ionawr 2016 - gwaith bron wedi ei gwblhau.</p> <p>Hwlfordd – mae trafodaethau ac ymweliadau safle'n parhau gyda Chyngor Sir Benfro'n datblygu oriel benodol yng nghanol canol tref Hwlfordd fel rhan o raglen datblygu canolfan gelfyddydau ehangach gwerth £3.8M. Mae ceisiadau ariannol wrthi'n cael eu datblygu.</p> <p>Mae trafodaethau'n parhau gyda Phrifysgol Caerdydd ynglŷn â chynnig y Llyfrgell yn ogystal â deunydd adnau cyfreithiol electronig. Gallai lleoliadau Abertawe hefyd roi cyfle i</p> |

| | |
|---|--|
| | <p>ar ddangos samplau o gasgliadau ffotograffau a chelfyddyd gain. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill gyda Phrifysgol Bangor a Phrosiect Egin y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.</p> |
| <p>Bydd y Llyfrgell yn datblygu a chyflwyno achos i greu ail bwynt mynediad ar gyfer deunydd adnau cyfreithiol electronig yng Nghymru i'r Panel Cyngori Adnau Cyfreithiol erbyn Rhagfyr 2015 i'w drafod. Cytunir ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r achos i'r Gynhadledd ar y Cyd ar Lyfrgelloedd Digidol (JCDL) mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgellwyr Adnau Cyfreithiol.</p> | <p>Mae achos drafft ar gyfer creu ail bwynt mynediad ar gyfer deunyddiau sy'n cael eu caffael drwy adnau cyfreithiol yn 'safle'r' Llyfrgell yng Nghaerdydd wedi eu hail-drafod er mwyn cynnwys yr adborth a dderbyniwyd gan y Llyfrgellwyr Adnau Cyfreithiol. Bydd yn pwysleisio cynnwys ystod ehangach o ddeunydd ar gael gan y Llyfrgell o ran mynediad at ei chasgliadau a'i gwasanaethau o'r lle hwn. Cyflwynir y cais i'r Gynhadledd ar y Cyd ar Lyfrgelloedd Digidol (JCDL) ym Mawrth 2016.</p> |
| <p>Adolygu a diweddarau canllawiau a hyfforddiant presennol y Llyfrgell ar gyfer defnyddwyr yn sgil cyflwyno system rheoli llyfrgelloedd newydd ym mis Tachwedd 2015. Creu a darparu gwybodaeth sy'n hawdd i ddefnyddwyr ei defnyddio gyda'r nod o gyflwyno defnyddwyr newydd i gasgliadau'r Llyfrgell (e.e. deunydd ar gael drwy adnau cyfreithiol electronig) a helpu defnyddwyr i gael mynediad at adnoddau'r Llyfrgell.</p> | <p>Mae tîm o staff y Llyfrgell wedi cael hyfforddiant cychwynnol ar y Rhyngwyneb Darganfod Adnoddau newydd, Primo 4-5/8/15. Cwblhawyd y llif gwaith - cylchredeg a cheisiadau ar-lein ar gyfer copïau digidol ac analog erbyn 30/9/15.</p> <p>Mae'r 2 ddarn gwaith yma, ynghyd â chyflwyno peiriannau a meddalwedd newydd yn yr ystafelloedd darllen i wella mynediad at ddeunyddiau Adnau Cyfreithiol Electronig yn fodd i'r Gyfarwyddiaeth baratoi canllawiau newydd ar gyfer defnyddwyr yn ystod Hydref 2015 cyn gweithredu Alma a Primo ym mis Tachwedd 2015. Bydd y Llyfrgell yn adolygu hygyrchedd ac ymwybyddiaeth y cynnwys a'r adnoddau ar ôl mynd yn fyw.</p> |
| <p>Gweithredu'r system rheoli llyfrgelloedd newydd a'r feddalwedd darganfod adnoddau newydd a gafaelyd ar y cyd â llyfrgelloedd addysg uwch Cymru. Bydd y system yn cael ei gweithredu yn y Llyfrgell yn ystod mis Tachwedd 2015. Bydd y broses o weithredu'r system newydd a'i heffaith gychwynnol ar brosesau mewnol a llifoedd gwaith y Llyfrgell yn cael ei gwerthuso erbyn diwedd Mawrth 2016.</p> | <p>Mae system rheoli llyfrgelloedd Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru wedi ei gweithredu'n llwyddiannus ym mhrifysgol Abertawe ac Aberystwyth. Mae'r Prosiect Gweithredu yn LIGC yn mynd rhagddo yn ôl yr amserlen ac yn cael ei reoli'n fewnol gan Fwrdd Gweithredu Prosiect.</p> <p>Yn ogystal â gweithredu Alma a Primo, mae'r Llyfrgell yn gyfrifol am gyfieithu Alma ar gyfer y Consortiwm. Cwblhawyd y gwaith hwn erbyn diwedd Gorffennaf.</p> <p>Yn ystod Gorffennaf, defnyddiodd staff Systemau feddalwedd archifol ffynhonnell agored AtoM gan weithio gyda staff Archifau i brofi'r gwelliant ychwanegol hwn i'r swyddogaeth darganfod adnoddau.</p> <p>Mae trafodaethau ar y gweill ar lefel consortiwm Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru ar Sicrhau Buddion (gyda chymorth Llywodraeth Cymru i asesu effaith) ac ar arbedion pellach posibl o ran gwaith consortiwm yn y dyfodol. Mae trafodaethau pellach am bosibiliadau ariannu ar gyfer y</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>gwaith hwn yn cael eu cynnal.</p> <p>Enillodd gwaith Tîm System Rheoli Llyfrgelloedd Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru Wobr Arweinyddiaeth a Rheolaeth Addysg Uwch y Times (Mehefin 16). Bydd y tlws yn cael ei arddangos yn y Llyfrgell pan fydd y system Ex Libris yn mynd yn fyw ym mis Tachwedd. Bydd LIGC yn canolbwyntio ar weithredu mewnol tan ddiwedd y flwyddyn galendr.</p> |
|--|--|

2. Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl:

- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a gwahanol randdeiliaid eraill er mwyn helpu i weithredu cyfres gydlynol a phenodol o gamau gweithredu, gan adeiladu ar argymhellion y Farwnes Andrews, gan gynnwys chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sefydlu Ardaloedd Arloesi, mentrau lleol i brofi a gweithredu argymhellion yr adroddiad Diwylliant a Thlodi
- Darparu cyfleoedd i unigolion feithrin sgiliau ar gyfer cyflogaeth a datblygiad personol a gyrfaoel drwy wirfoddoli
- Cefnogi dysgu ffurfiol drwy ddatblygu cynnwys digidol ac adnoddau addysgol o'r radd flaenaf yn y Gymraeg a'r Saesneg, a thrwy waith Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell o ran darparu gweithgareddau fel mynd ag eitemau i gymunedau lleol er mwyn ysbrydoli a chymell dysgwyr o bob oedran drwy gyswllt uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol
- Cydweithio â darparwyr addysg er mwyn cyflawni'r agweddau ar Fagloriaeth ddiwygiedig Cymru sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth
- Pennu sut y gall cyfleoedd a ddarperir gan y Llyfrgell gyfrannu at y rhaglen Ymgysylltu Rhagor â Chyflogwyr, y Rhaglen Cyflawni eich Potensial a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid
- Sefydlu ymhellach gynaliadwyedd fel egwyddor drefniadol ganolog ar gyfer gweithrediadau'r Llyfrgell Genedlaethol, wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogi Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru a Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

| Amcanion Datblygu | Dangosyddion perthnasol |
|---|---|
| <p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i weithredu set o gamau cydlynol wedi'u targedu er mwyn gweithredu'r argymhellion y manylir arnynt yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Farwnes Andrews ar 'Ddiwylliant a Thlodi' gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Datblygu cynllun i weithredu argymhellion ar gyfer camau penodol gan y Llyfrgell Genedlaethol a nodi camau gan y Llyfrgell sydd hefyd yn cyfrannu at argymhellion o adroddiad yr Athro Dai Smith ar y Celfyddydau mewn Addysg. - Nodi sut bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn cefnogi a sefydlu | <p>Mynychodd LIGC ddigwyddiad rhwydweithio'r Rhaglen Cyfuno a gynhaliwyd gan MALD ar 6 Gorffennaf.</p> <p>Mynychodd LIGC gyfarfodydd Rhaglen Arloesi yn y Celfyddydau a Diwylliant Torfaen ar 7 Gorffennaf a 13 Hydref ac mae pecyn o ddigwyddiadau cyfranogi ar gael i'r ardal, gyda phosibilrwydd o'i gyflwyno mewn Ardaloedd Arloesi eraill yn y dyfodol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Digwyddiad hyfforddi a hanes lleol cymorth torfol Cynefin yn seiliedig ar Fapiau Degwm Cymru, gweler http://cynefin.archiveswales.org.uk/. 2. Digwyddiad 'Golygathon' Wicipedia gyda Wicipediwr Preswyl LIGC: digwyddiad lle bydd ein Wicipediwr Preswyl yn cynllunio ac arwain grŵp amrywiol i greu, golygu a chyfoethogi erthyglau Wicipedia ar thema sy'n berthnasol i'r grŵp. |

| | |
|--|--|
| <p>Ardaloedd Arloesi ac yn cyfrannu at fentrau cydweithredol yn ystod 2015-16 i brofi a gweithredu argymhellion yr adroddiad. Bydd y cynnydd a wneir gyda'r gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol, y mae'r Llyfrgell yn aelod ohono.</p> | <p>3. Celf yn y Dosbarth - mae'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo'n dda yn Ysgol Gynradd Coed Efa yn Nhorfaen i drefnu diwrnod o weithgareddau addysgol yn yr ysgol ym mis Tachwedd pan fydd paentiad gwerthfawr o gasgliad LIGC yn cael ei arddangos. Bydd gweithgareddau dilynol yn cynnwys dod â holl ddisgyblion Blwyddyn 5 i LIGC i gael taith a chymryd rhan mewn gweithgareddau gweithdy cysylltiedig. Mae hwn yn ddigwyddiad tebyg i'r un proffil uchel a gynhaliodd LIGC yn Ysgol Trelai yn 2013. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Sefydliad Scottish Power.</p> <p>4. Mae LIGC yn bartner yn y prosiect Cymru dros Heddwch (sy'n cael ei arwain gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru; http://www.wcia.org.uk/walesforpeace.html) ac mae'n datblygu dull i ganiatáu i gymunedau drawsgrifio'n ddigidol y cofnodion llaw yn Llyfr Coffa Cymru ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau a gynhelir drwy Gymru yn cynnwys Torfaen.</p> <p>Mae LIGC hefyd yn arwain y rhan 'cynnwys y gymuned' o Gasgliad y Werin Cymru a bydd yn sefydlu Gorsaf Treftadaeth Ddigidol ym mhob Ardal Arloesi. Bydd y rhaglen hefyd yn sefydlu arbenigedd cynaliadwy o fewn y cymunedau drwy weithio gydag Agored Cymru i ddarparu hyfforddiant cysylltiedig i sefydlu Hyrwyddwyr Treftadaeth ym mhob ardal. Mae Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol a hyfforddiant cysylltiedig eisoes ar y gweill. Mae Gorsafoedd Treftadaeth Ddigidol eisoes wedi eu cyflwyno ym mhob Ardal Arloesi.</p> <p>Mynychodd LIGC gyfarfod agoriadol Grŵp Addysg y Rhaglen Cyfuno ar 17 Gorffennaf yn ogystal â chyfarfodydd o'r Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol sy'n monitro cynnydd gyda'r gwaith hwn.</p> |
| <p>Adolygu Cynllun Gweithredu Gwirfoddoli yn sgil penodi cynorthwydd gwirfoddoli yn ystod Gwanwyn 2015. Bydd y Llyfrgell yn edrych ar gyfleoedd i alinio'n well â strategaethau Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu sgiliau personol a sgiliau ar gyfer cyflogaeth drwy wirfoddoli, a nodi cynlluniau i ddatblygu Cynllun Gwirfoddoli'r Llyfrgell ymhellach a'r cyfleoedd a gynigir i gyfranogwyr o fewn y Llyfrgell ac o bell.</p> | <p>Mae 2 o wirfoddolwyr LIGC bellach wedi neilltuo mwy na 1,000 o oriau o'u hamser i helpu'r Llyfrgell.</p> <p>Ymunodd 2 wirfoddolwr ag Awtistiaeth y cynllun yn ystod y cyfnod hwn; buont yn helpu gyda thasgau trawsgrifio a phrosesu data, gan fwynhau'r gwaith. Yn ystod y chwarter hwn, mae ein gwirfoddolwyr wedi helpu i dreialu gwefan a chatalog newydd LIGC, yn ogystal â llwyfan trawsgrifio'r Llyfr Coffa ar gyfer prosiect 'Cymru dros Heddwch'.</p> <p>Yn dilyn hyfforddiant, mae 4 gwirfoddolwr newydd yn gweithio tuag at achrediad Agored Cymru mewn 'Digidio Deunyddiau ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd'. Mae rôl 'Lletygarwch' yn cael ei datblygu a fydd yn galluogi i wirfoddolwyr LIGC ryngweithio gydag ymwelwyr i'r adeilad, a thrwy hynny helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a threfniadol. Bydd y rôl</p> |

| | |
|---|---|
| | <p>hon hefyd yn helpu LIGC i gasglu adborth gan ymwelwyr, ac ymgynghori â nhw'n fwy rheolaidd. Ar hyn o bryd mae'r Cydlynnydd yn edrych ar nifer o syniadau sy'n gyson â strategaethau Llywodraeth Cymru, hynny yw yn y sectorau iechyd meddwl a chyfiawnder ieuencid. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gynnwys yn y chwarter nesaf.</p> <p>Mae prosiectau gwirfoddoli o bell yn cael eu hystyried; a bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gynnwys yn y chwarter nesaf.</p> |
| <p>Datblygu rhaglen i barhau i ddatblygu cynnwys digidol o safon uchel drwy ddigido, gan gynnwys anghenion prosiectau cydweithredol gyda phartneriaid allanol, erbyn Mehefin 2015.</p> <p>Parhau â gwaith parhaus y Llyfrgell i gynyddu mynediad ar-lein at ddeunydd casgliadau a darparu casgliadau y gellir chwilio drwyddynt.</p> | <p>Yn Chwarter 2 sganiodd yr Isadran Digidol dros 50,000 o eitemau'n cynnwys Pamffledi Gladstone, Cylchgronau Cyn 1900, Mapiau Degwm, Ffotograffau Gwilym Livingstone Evans a phapurau hanesyddol.</p> <p>Mae trafodaethau ar y gweill i lunio Strategaeth Cynnwys Digidol 3 blynedd - yn cynnwys llais partneriaid a chynulleidfaeodd - a fydd yn disodli'r Strategaeth Ddigidol. Bydd hon yn canolbwyntio ar gynnwys digidol newydd ac etifeddol (effaith, creu, darganfod, mynediad, partneriaeth, ymgysylltu, defnyddio, ymchwil).</p> <p>Bydd erfyn llif gwaith newydd yn cael ei weithredu'n ddiweddarach yr hydref hwn i greu arbedion pellach i'r llif gwaith digido ar gyfer sganio llawysgrifau. Mae hyn yn gyson â'r caledwedd sganio newydd a fydd yn cael ei gaffael gydag arian cyfalaf yn y dyfodol agos.</p> |
| <p>Parhau i gyfrannu at raglen cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru a darparu cefnogaeth ar gyfer dysgu trwy ehangu ar y ddarpariaeth ddigidol sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Creu a darparu mynediad ar-lein at ddeunyddiau ac adnoddau dysgu newydd o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm Cymreig (yn cynnwys y Fagloriaeth Gymreig), drwy wefan y Llyfrgell a llwyfan addysg ffurfiol Hwb.</p> <p>Fel rhan o brosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf, bydd y Llyfrgell yn arwain o safbwynt cynhyrchu, treialu ac uwchlwytho'r adnoddau canlynol i Hwb:</p> <p>Mehefin 2015: Adnoddau trawsgwricwlaidd ar gyfer CA 2 a 3 ar y Ffrynt Cartref, profiadau milwyr</p> | <p>Mae LIGC wedi darparu sesiynau'r Fagloriaeth Gymreig i 235 o fyfyrwyr yn Chwarter 2 sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfeirio. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a thîm addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu rhai o'r sesiynau hyn.</p> <p>Mae adnoddau trawsgwricwlaidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3 ar Frwydr Passchendaele (Trydedd Frwydr Ypres), hanes Hedd Wyn, rôl y ferch yn y rhyfel, straeon unigol Milwyr Cymreig, Sensoriaeth a'r iaith Gymraeg naill ai wedi eu cyhoeddi ar Hwb (gweler https://hwb.wales.gov.uk/ -> Adnoddau-> Rhyfel Byd Cyntaf: Prosiect Addysg), neu bron â gorffen cael eu golygu'n barod i'w cyhoeddi. Mae staff prosiect hefyd yn gweithio gyda Chymru Dros Heddwch i ddarparu deunyddiau addysgol ar gyfer y prosiect hwnnw.</p> <p>Mae'r adnoddau hyn yn cael eu hyrwyddo'n barhaus drwy CwrddHwb, yn uniongyrchol i ysgolion, drwy undebau athrawon, Cymru'n Cofio ac Arweinwyr Digidol Hwb.</p> |

| | |
|---|--|
| <p>o Gymru o amgylch y byd, Cenedlaetholdeb a'r Rhyfel Byd Cyntaf.</p> <p>Medi 2015: Adnoddau trawsgwricwlaidd ar gyfer CA 2 a 3 ar Frwydr Passchendaele (Trydedd Frwydr Ypres), Hanes Hedd Wyn a cherddi rhyfel eraill, Merched a'r Rhyfel Byd Cyntaf.</p> <p>Rhagfyr 2015: Adnoddau trawsgwricwlaidd ar gyfer CA 2 a 3 ar Wrthwynebwyd Cydwybodol a'r Rhyfel Byd Cyntaf, hanesion milwyr a ddychwelodd o'r rhyfel, cadoediad a heddwch, Versailles.</p> <p>Mawrth 2016: 75 o eitemau fideo o Archif ITV Cymru/Wales, wedi'u digido, dyfrnodi, isdeitlo, a'u huwchlwytho ar Hwb gyda disgrifiad byr o bob eitem.</p> | |
| <p>Creu cysylltiadau gydag ysgolion penodol i greu adnoddau a rhannu casgliadau'r Llyfrgell er mwyn parhau â'r gwaith hwn yn sgil ymwneud blaenorol y Llyfrgell ym mhrosiect Campweithiau mewn Ysgolion Sefydliad Catalog Cyhoeddus.</p> | <p>Mae'r Llyfrgell wedi bod yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion mewn pedair ysgol ym Merthyr Tudful am gyfnod estynedig ar brosiect sy'n cael ei ariannu gan Sefydliad Scottish Power.</p> <p>Mae tystiolaeth ac effaith y gwaith hwn i'w weld yma:</p> <p>http://addysg.llgc.org.uk/index.php?id=6430&L=1 (Ysgol Gynradd Trelewis)</p> <p>http://addysg.llgc.org.uk/index.php?id=6431&L=1 (Ysgol Gynradd Goetre).</p> <p>Bydd Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell Genedlaethol yn darparu prosiect Celf yn y Dosbarth pan fydd paentiad adnabyddus o gasgliad y Llyfrgell yn cael ei arddangos mewn ysgol uwchradd yn Nhorfaen ym mis Tachwedd 2015.</p> |
| <p>Gweithredu prosiectau dan arweiniad Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell i ddatblygu sgiliau pobl ifanc ac oedolion ar incwm isel, neu sy'n ddi-waith, gan ganolbwyntio ar weithgareddau ymestyn yn ardaloedd Ynys Môn a Sir Benfro yn 2015.</p> | <p>Bu'r Llyfrgell yn cynnal prosiect ym Mhowys gyda 9 ysgol a arweiniodd at arddangosfa yn ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Mae prosiect llwyddiannus gyda rhieni a disgyblion yn ardal Doc Penfro ar y cyd â Springboard a Chyngor Sir Penfro wedi arwain at gynhyrchu ffenestr wydr lliw sydd bellach yn cael ei harddangos yn y Llyfrgell Genedlaethol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau yn Ynys Môn i gynnal prosiectau crefftau ar gyfer gofalwyr ifanc.</p> |
| <p>Parhau â thrafodaethau gyda</p> | <p>Mae'r Llyfrgell wedi cynnal un o ddigwyddiadau Llywodraeth</p> |

Llywodraeth Cymru i baratoi tuag at weithredu Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac asesu mewn modd critigol sut y gall gwaith y Llyfrgell gyfrannu at yr agenda hwn o gynyddu ac ymgorffori cynaliadwyedd.

Cymru i hyrwyddo'r Bil - roedd hwn yn cyflwyno'r cefndir cyffredinol i'r gofynion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynnal gweithdai a fydd yn manylu sut y dylai'r Bil gael ei weithredu ac mae'r Llyfrgell yn bwriadu manteisio ar hyn. Deallir y bydd y rhain yn cael eu cynnal yn yr Hydref. Tan hynny mae'r Llyfrgell yn ansicr faint o waith y Bil y bydd angen ei weithredu gan fod y geiriad yn gyffredinol iawn, heb fanylion penodol. Nid yw'r Llyfrgell wedi neilltuo unrhyw adnoddau i weithredu'r Bil ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud sut mae'n bwriadu archwilio cydymffurfiaeth.

Bydd y Llyfrgell yn mynychu ymgynghoriad a gynhelir ar 21 Hydref a bydd yn cyflwyno papur briffio i'w Fwrdd Ymddiriedolwyr ar 6 Tachwedd.

3 Cydweithio gyda'r sector llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai yng Nghymru, a phartneriaid eraill, i nodi a gweithredu ffyrdd cynaliadwy a mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau trwy Gymru:

- Paratoi ar gyfer cydleoli'r Cofnod Henebion Cenedlaethol a gwasanaethau cysylltiedig yn y Llyfrgell Genedlaethol. Cyflawni prosiect gwerth £3.5 miliwn y Llyfrgell ar gyfer Datblygu'r Cwrt, er mwyn creu gofod storio addas ar gyfer casgliadau a chyfleusterau ar gyfer staff, yn unol â'r amserlen a'r gyllideb y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Henebion Cymru i fodloni cerrig milltir allweddol yn yr amserlen a gymeradwywyd ar gyfer cydleoli.
- Parhau i chwarae rhan arweiniol yn narpariaeth ffederal gwasanaeth treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru, sy'n cefnogi ymgysylltu digidol â diwylliant a threftadaeth Cymru, cynhwysiant digidol a datblygu sgiliau digidol. Adeiladu ar bartneriaeth bresennol y Llyfrgell gydag Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol, drwy raglen Casgliad y Werin Cymru, wrth ddatblygu a chyflawni mentrau cenedlaethol a digidol ym maes treftadaeth mewn modd strategol.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac â llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau lleol ynghylch datblygu a chyflawni'r strategaethau Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli ac Archifau ar gyfer yr 21ain Ganrif, fel y pennwyd yn y cynlluniau cyflawni ar gyfer y strategaethau hyn ac yn unol â'r cytundebau partneriaeth ar gyfer prosiectau penodol (e.e. Llyfrgell Ddigidol)

| Amcanion Datblygu | Dangosyddion perthnasol |
|---|---|
| <p>Darparu Prosiect £3.5 miliwn y Llyfrgell i Ddatblygu'r Cwrt, er mwyn creu gofod storio addas ar gyfer casgliadau a chyfleusterau ar gyfer staff, yn unol â'r amserlen a'r gyllideb y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith adeiladu'n cael ei gwblhau erbyn Ionawr 2016.</p> | <p>Mae'r cam adeiladu'n mynd rhagddo yn unol â'r amserlen ac mae'r ffrâm dur wedi ei osod. Mae'r gofynion o ran silffoedd allan ar dendr a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu ym mis Hydref.</p> <p>Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2016.</p> |
| <p>Parhau â'r trafodaethau gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru i baratoi ar gyfer cydleoli, er mwyn bodloni cerrig milltir allweddol yn yr amserlen a gymeradwywyd ar gyfer cydleoli.</p> | <p>Trafodaethau dan arweiniad Richard Baker, Llywodraeth Cymru yn parhau, ac mae'r cynigion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn i'w hystyried gan eu Bwrdd. Cyflwynwyd Penawdau'r Telerau i Fwrdd y Llyfrgell ar 10 Gorffennaf ac fe'u cymeradwywyd ar 18 Medi lle cytunwyd ar delerau'r Memorandwm Dealltwriaeth a Phenawdau'r Telerau. Bydd y Llyfrgell yn goruchwylio'r gwaith o gwblhau'r cytundeb les. O fewn cyd-destun prif elfennau'r rhaglen, mae'r Llyfrgell a'r Comisiwn wedi cyfarfod i ystyried y gofynion o ran silffoedd ar gyfer y Cofnod Henebion Cenedlaethol i baratoi ar gyfer manylu ynglŷn â gofynion y silffoedd ym Mhrosiect Datblygu'r Cwrt.</p> |
| <p>Cefnogi rhaglen Casgliad y Werin Cymru drwy gynnig arweinyddiaeth ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned; Llifoedd gwaith Cynnwys, Golygyddol a Chymedroli, fel yr amlinellir yng nghynllun busnes <i>Casgliad y Werin Cymru 2015-16</i>.</p> | <p>Mae LIGC yn cymryd rôl arweiniol o ran darparu cynllun busnes Casgliad y Werin Cymru 2015/16 ac mae'n arwain y gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned, Cynnwys a Chymedroli gan gynnwys Cymru'n Cofio. Mae hefyd yn cyfrannu at waith y Maes Technegol. Adroddir ar y cynnydd bob chwarter i gyfarfodydd monitro Casgliad y Werin Cymru.</p> |

| | |
|--|---|
| <p>Mae'r Llyfrgell hefyd yn cyfrannu at amcanion ehangach y rhaglen a blaenoriaethau ar gyfer Casgliad y Werin Cymru yn unol â strategaeth y rhaglen ar gyfer 2014-2017.</p> | <p>Fel rhan o gynllun cyflawni ymgysylltu â'r gymuned dan arweiniad y Llyfrgell, mae Casgliad y Werin Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Dysgu Bro, gan gynnig 'Digido deunyddiau ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau hyfforddiant mewn digido' sy'n gallu arwain at gwrs achrededig ar Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Agored Cymru.</p> |
| <p>Cyfrannu fel y cytunwyd tuag at y strategaeth <i>Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli</i>, ar y cyd â gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn sefydlu Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol drwy drefn genedlaethol o gaffael a rheoli e-ddeunyddiau ac e-adnoddau a fydd ar gael i holl ddefnyddwyr llyfrgelloedd Cymru. Cyflawnir y gwaith hwn yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda CyMAL.</p> | <p>Gan ddefnyddio grant Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli, prynodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru danysgrifiad blwyddyn i Statista.com. Fel rhan o'r Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol, bydd hwn yn golygu bod aelodau LIGC yn gallu defnyddio dull arloesol a greddfoll i ymchwilio i ddata meintiol, ystadegau a gwybodaeth gysylltiedig. Trwy ehangu ar nifer yr adnoddau am ddim sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol, rydym yn cyflawni'r amcanion sydd yn y rhaglen Cyfuno.</p> <p>Roedd 29,705 o ymweliadau â'r porth rhwng Ebrill a Mehefin, o'i gymharu â 47,364 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Nodwch fod y ffigyrau hyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol gan eu bod wedi eu casglu gyda AWStats yn hytrach na Google Analytics. Mae'r ddau dull yn mesur yr un pethau, ond roedd ffigyrau AWStats yn uwch oherwydd bod y dull hwn yn cyfrif trawladau awtomatig gan robotiaid ac ymlusgwyr (e.e. a gynhyrchwyd fel rhan o'r ffordd y mae'r peiriant chwilio'n gweithio).</p> <p>Gan fod pencampwriaeth Cwpan Rygbi'r Byd wrthi'n cael ei chynnal, mae hafan http://welshlibraries.org/cy/ yn tynnu sylw at enillwyr cystadleuaeth y Straeon Rygbi, a gynhaliwyd i gefnogi'r Rhaglen Cyfuno newydd. Roedd y porth hefyd yn hyrwyddo Wythnos Llyfrau Gwaharddedig, y digwyddiad blynyddol a gynhelir gan y gymuned lyfrau cenedlaethol i ddathlu rhyddid i ddarllen.</p> |
| <p>Cyfrannu fel y cytunwyd at Archifau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn unol â'r cynllun gweithredu.</p> | <p>Mae'r Llyfrgell yn parhau i gefnogi gwefan http://www.archiveswales.org.uk/cy/?no_cache=1. Mae'n ystyried opsiynau, fel yr Hwb Archifau, i sicrhau bod cynnwys Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru'n fwy hygyrch ar-lein. Gweithredwyd system Archivemata a bydd mynediad ar gael i aelodau Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru ei brofi a'i ddefnyddio fel system hyfforddi. Bydd manyleb ar gyfer caffael seilwaith technegol yn cael ei datblygu, yn seiliedig ar ofynion aelodau.</p> |

4 Cefnogi blaenoriaethau a mentrau strategol ehangach Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o'r radd flaen ar gyfer twristiaeth a chyfrannu at economi Cymru:

- Cydweithio rhagor â Chroeso Cymru o ran prosiectau a gweithgareddau thematig penodol yn ystod 2015-16
- Datblygu gweledigaeth glir o safbwynt cyfraniad y Llyfrgell Genedlaethol at economi ehangach Cymru, gan adeiladu ar eich gwaith gyda'r diwydiannau creadigol yn ystod y prosiect DigiDo a ariennir gan yr UE, rôl y Llyfrgell fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer twristiaid ac ystyried argymhellion yr adroddiad sydd ar y gweill ynghylch effaith economaidd y Llyfrgell Genedlaethol.
- Ymchwilio i gyfleoedd newydd ac arloesol ar gyfer cynyddu buddsoddiad o'r tu allan yng ngwaith y Llyfrgell Genedlaethol, a'r sector treftadaeth ddiwylliannol ehangach yng Nghymru; fel cyllido torfol, creu incwm, partneriaethau ag addysg uwch ac ymchwil a chynlluniau cyllid Ewropeaidd
- Cyfrannu at bartneriaethau strategol Llywodraeth Cymru dramor ac at fentrau cenedlaethol sy'n hybu Cymru, ein treftadaeth a'n diwylliant, gan gynnwys chwarae rhan allweddol yn y rhaglen genedlaethol proffil uchel o weithgareddau ar gyfer cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru sef Cymru'n Cofio 1914-1918, a chyfrannu at raglen gydgyssylltiedig er mwyn nodi 150 mlynedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia

| <p>Amcanion</p> <p>Datblygu</p> | <p>Dangosyddion perthnasol</p> |
|---|---|
| <p>Sicrhau bod prosiect DigiDo yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus, yn unol â'r targedau â'r amserlen y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd gwerthusiad ffurfiol yn cael ei gwblhau, a fydd yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth y Llyfrgell ar gyfer parhau â'r gwasanaeth hwn sydd wedi ei dargedu at gynulleidfa fusnes erbyn</p> | <p>Mae'r prosiect bellach wedi gorffen ac mae'r Adran Gyllid mewn cysylltiad â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'w gau a'i gymeradwyo'n derfynol.</p> |

| | |
|--|---|
| <p>mis Hydref 2015.</p> | |
| <p>Trafod cyfleoedd i gydweithio mwy â Chroeso Cymru i edrych ar gyfleoedd i godi proffil y Llyfrgell yn rhyngwladol, ac ar gyfleoedd i'r Llyfrgell gyfrannu at hyrwyddo ar y cyd 'gynnig' integredig o safbwynt diwylliant a threftadaeth i ymwelwyr.</p> | <p>Bydd y Llyfrgell yn cydweithio gyda Chroeso Cymru i edrych ar gyfleoedd i gynyddu proffil y Llyfrgell yn rhyngwladol, ac ar gyfleoedd i'r Llyfrgell gyfrannu at hyrwyddo ar y cyd 'gynnig' integredig o safbwynt diwylliant a threftadaeth i ymwelwyr.</p> |
| <p>Ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, edrych ar y cyfleoedd economaidd y gall y diwydiant twristiaeth eu cynnig, fel cyfleoedd i gyrraedd at gynulleidfaoedd newydd, cynyddu niferoedd ymwelwyr, creu incwm a chyllido torfol.</p> | <p>Bydd y Llyfrgell yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i edrych ar gyfleoedd economaidd y gall y diwydiant twristiaeth eu cynnig, fel cyfleoedd i gyrraedd at gynulleidfaoedd newydd, cynyddu niferoedd ymwelwyr, creu incwm a chyllido torfol.</p> |
| <p>Bydd y Llyfrgell yn parhau i weithio i hyrwyddo Cymru yn y Deyrnas Unedig a thramor yn</p> | <p>Mae'r Llyfrgell yn parhau i hyrwyddo Cymru yn y Deyrnas Unedig a thramor.</p> <p>Patagonia: Bu aelodau o dîm Casgliad y Werin LIGC i Batagonia rhwng 12 a 30 Medi ar y cyd a'r Cyngor Prydeinig i sefydlu 2 Orsaf Treftadaeth Ddigidol yn y rhanbarth, i godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Gymreig drwy Gasgliad y Werin Cymru a sefydlu arbenigedd digidol o fewn y gymuned. Bu 263 o unigolion mewn sesiynau rhagarweiniol a hyfforddiant mewn 10 digwyddiad a</p> |

| | |
|---|--|
| <p>cynnwys gweithgareddau penodol yn ystod 2015-16: Cytuno ar Femorandwm Dealltwriaeth gyda Llyfrgell Shanghai a datblygu cynlluniau ar gyfer gweithgareddau i gefnogi'r berthynas hon</p> <p>Trwy Gasgliad y Werin Cymru, bydd y Llyfrgell yn cyfrannu at raglen gydgyssylltiedig o weithgareddau i ddathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia</p> | <p>gynhaliwyd ar draws y rhanbarth.</p> <p>Paris: Ar hyn o bryd mae eitemau o gasgliad o ffotograffau cynnar (gan Mary Dillwyn Llewelyn) yn cael eu harddangos yn arddangosfa 'Who's afraid of women photographers?' yn amgueddfa Musee D'Orsay ym Mharis (14 Hydref 2015 - 24 Ionawr 2016).</p> <p>Japan: Ymweliad addysgol â LIGC gan fyfyrwr o Siapan.</p> <p>Micrographia250: Agorodd arddangosfa <i>The Secret Workings of Nature: Robert Hooke and Early Science</i> fel rhan o'r ymgyrch ryngwladol i ddathlu 250 o flynyddoedd ers cyhoeddi Micrographia, y llyfr cyntaf i gyflwyno lluniau o ryfeddodau'r byd newydd a ddatgelwyd pan ddyfeisiwyd y microsgop cynnar.</p> <p>Periscope: Darlledwyd arddangosfa PJG a darlith amser cinio Cynefin i bobl dros y byd drwy ddefnyddio'r dechnoleg newydd, Periscope.</p> <p>Cyfyngau cymdeithasol: Sefydlwyd cyfrifon Instagram - @llgcymru a @nlwales - a chyfrif Clecs ar gyfer LIGC - llwyfannau newydd i gysylltu â chynulleidfaedd newydd dros y byd. Hefyd cymerodd LIGC ran yn ymgyrchoedd rhyngwladol Twitter i ddathlu gwaith J.M.W.Turner (#TweetATurner) ac i goffau #Patagonia150 ('thunderclap').</p> <p>Ymchwil digidol: Lanswyd llwyfan newydd ac arloesol i rannu data gydag ymchwilyr cenedlaethol a rhyngwladol ar wefan LIGC - data.llgc.org.uk.</p> |
| <p>Cyflawni gweithgareddau a darparu adnoddau i gefnogi Rhaglen Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Trwy ei rôl fel partner darparu arweiniol ar gyfer rhaglen Casgliad y Werin Cymru,</p> | <p>Cymru yn y Rhyfel: Mae gwefan <i>Cymru yn y Rhyfel</i> ar http://www.walesatwar.org/cy/site/home a'r ap (y gallwch ei ddefnyddio ar ddyfeisiau a thabledi Apple ac Android) i'w gael yn yr App Store - 'Wales at War/Cymru yn y Rhyfel' (https://itunes.apple.com/gb/ap/wales-at-war-cymru-yn-y-rhyfel/id984507748?mt=8) ar Google Play(https://play.google.com/store/apps/details?id=com.ballistadigital.timeline&hl=en). Gallwch hefyd eu cael drwy wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru drwy Hwb (http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/dc92363d-9652-4027-bfe0-b8b21fd7ad75/cy).</p> <p>Mae gwelliannau wedi eu gwneud i'r broses lywio, trawsgysylltu a chynnwys y Llinell Amser o fewn y llwyfan yn ystod Chwarter 2.</p> <p>Ers dechrau tymor yr hydref, mae 9 ysgol a 2 grŵp cymunedol wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda'r prosiect.</p> <p>I gefnogi'r cam ymgysylltu, mae rhywfaint o gyllideb y prosiect ar gael i wasanaethau archifau lleol yng Nghymru drwy Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru i ddatblygu a chynnal gweithgareddau a fydd yn hybu ymwybyddiaeth o ffynonellau'r Rhyfel Byd Cyntaf a chefnogi'r defnydd o <i>Cymru yn y Rhyfel</i>. Galwyd</p> |

| | |
|--|--|
| <p>mae'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn helpu Casgliad y Werin Cymru i reoli gwefan <i>Cymru'n Cofio 1914-1918</i>.</p> | <p>am gynigion a phenderfynir sut i ddyrannu'r cyllid yn ystod Chwarter 3. Mae'r prosiect hefyd yn cydweithio gyda phrosiectau cymunedol, yn cynnwys <i>Cymru dros Heddwch</i> (gweler isod), <i>Conwy a'r Rhyfel Mawr</i> (Menter Iaith Conwy), and <i>Welsh Memorials of the Great War</i> (Prifysgol Abertawe/Living Legacies). Bydd y prosiectau cydweithredol hyn yn parhau yn Chwarter 3/Chwarter 4.</p> <p>Cynhelir lansiad ffurfiol o'r wefan a'r ap ar 2 Tachwedd am 1.45pm yn Ysgol St Cyres, Penarth.</p> <p>Prosiect Cymru dros Heddwch: Mae'r gwaith cydweithredol ar brosiect Cymru dros Heddwch Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Cwblhawyd gwaith i drawsgrifio Llyfr Cofio Cymru ac rydym yn gweithio gyda thîm y prosiect ar raglen o ddigwyddiadau cyfranogi (gwirfoddolwyr yn trawsgrifio cofnodion) a gynhelir ledled Cymru o 11 Tachwedd 2015 - targedir Ardaloedd Arloesi. Hefyd cynhaliodd LIGC Gynhadledd gyntaf Partneriaid y Prosiect ar 2 Hydref gyda chynrychiolwyr o wahanol sectorau a chyrrff yng Nghymru. Hefyd cynhaliwyd 2 ddiwrnod rhyngweithio gyda thîm y prosiect a thimau LIGC i feithrin cysylltiadau a rhannu arbenigedd e.e. addysg ac arddangosfeydd.</p> <p>Gallipoli: Ar hyn o bryd mae'r Llyfrgell yn cynnal arddangosfa deithiol Gallipoli a gynhyrchwyd gan Anne Pedley drwy Cymru'n Cofio.</p> <p>Pabïau Tŵr Llundain: Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda thîm prosiect Cymru dros Heddwch a Chyngor Tref Aberystwyth ynglŷn â chyflwyno cais i gynnal y gosodwaith yn ystod 2017 (blwyddyn coffáu Hedd Wyn).</p> <p>Adnoddau HWB: Crëwyd mwy o adnoddau digidol ac maent ar gael ar Hwb. Y 5 adnodd mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Propaganda (5,228) • David Lloyd George (4,484) • Diwrnod ysgol 1918 (2,838) • Recriwtio a hyfforddi milwyr (2,104) • Prif frwydrau'r Rhyfel Byd Cyntaf (1,396) |
| <p>Ehangu gweithgareddau codi arian a chreu incwm presennol y Llyfrgell trwy: Ddatblygu cynllun gweithredu erbyn Gorffennaf 2015 i dargedu ffynonellau</p> | <p>Penodwyd Pennaeth Cysylltiadau Allanol dros dro ar 1 Medi 2015 gyda phrif dasgau'n cynnwys datblygu Strategaeth Codi Arian a Chynllun Gweithredu erbyn 31 Rhagfyr 2015; a chefnogi'r gwaith o baratoi ceisiadau ariannol.</p> <p>Cynlluniwyd ymgyrch "Cadw mewn Cysylltiad" ar gyfer y 17,000 o gysylltiadau ar gronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, Strategaeth Rhoddwyr, er mwyn deall eu nodweddion yn well, cael gwell syniad a dealltwriaeth o'u hanghenion a'u dewisiadau. Bydd yr ymgyrch yn digwydd fesul cam yn ystod y tri mis nesaf drwy bost uniongyrchol a thrwy e-bost.</p> <p>Mae'r Llyfrgell wedi llwyddo yn y cylch cyntaf ar gyfer Cronfa Casgliad Esmee Fairburn ar gyfer 'Gwyddoniaeth a Chelf; y tu mewn a'r tu allan i baentiadau Kyffin Williams', a chyflwynir y cais ar gyfer yr ail gam erbyn 29 Hydref.</p> |

| | |
|--|---|
| <p>ariannu allanol a nodi prosiectau posibl y gellid eu datblygu gan y Llyfrgell ac ar y cyd â phartneriaid eraill. Gweithredu system rhoddion ar-lein erbyn mis Mawrth 2016.</p> | <p>Dechreuwyd chwilio am gyllid ar gyfer nifer o brosiectau Archifau ac ar gyfer y Wicipiediwr Preswyl.</p> |
| <p>Parhau i reoli'r broses barhaus o gynnal a datblygu adeilad y Llyfrgell a'r seilwaith technegol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth a darparu cyfleusterau i ddefnyddwyr y Llyfrgell ac ymwelwyr yn cynnwys:</p> <p>- Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, cwblhau a chytuno ar Gynllun Rheoli Asedau erbyn Medi 2015 i ddylanwadu ar flaenoriaethau buddsoddiad yn seilwaith y Llyfrgell a monitro cynnydd o safbwynt</p> | <p>Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar ofynion y Llyfrgell hyd at 2020 (£26.55M) i Lywodraeth Cymru. Trafodwyd hyn gyda swyddogion sydd wedi gwneud cais i'r Dirprwy Weinidog.</p> <p>Mae'r Llyfrgell yn disgwyl am ganlyniad y trafodaethau hyn a byddai'n ddefnyddiol pe gellid cael yr wybodaeth am gynnydd y cais erbyn cyfarfod Bwrdd y Llyfrgell ar 6 Tachwedd.</p> |

| | |
|--|--|
| ymdrin â materion allweddol. - Cwblhau gwaith atgyweirio a gwaith datblygu sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2016. | |
|--|--|

5 Defnyddio arbenigedd a phrofiad y Llyfrgell Genedlaethol o safbwynt prosiectau digidol a chyflawni gwasanaethau digidol, er mwyn datblygu a rhannu sgiliau, adnoddau ac arbenigedd mewn modd strategol gyda phartneriaid ehangach:

- Darparu arweiniad strategol o safbwynt cadwraeth ddigidol, a chydweithio â phartneriaid y sector i gynllunio a datblygu seilwaith cenedlaethol er mwyn cefnogi gweithgareddau gwarchod a chadwedigaeth ddigidol yng Nghymru
- Ymgymryd â rôl arweiniol genedlaethol o ran datblygu a rhannu arferion da yn ymwneud â digido
- Parhau i gefnogi'r Consortiwm Cadwedigaeth Ddigidol i wella'r gallu ar draws Cymru i reoli a chadw casgliadau digidol
- Gweithio gyda phartneriaid ehangach, a chefnogi mentrau digidol eraill i wella mynediad ar-lein at ddeunydd diwylliannol Cymreig (yn cynnwys prosiect Cynefin a noddir gan gronfa Treftadaeth y Loteri)

| Amcanion Datblygu | Dangosyddion perthnasol |
|---|---|
| <p>Parhau i ddatblygu'r cysyniad rhwydwaith cadwraeth a digidol ac yn benodol hyrwyddo a datblygu sgiliau o safbwynt cadw gwybodaeth ddigidol.</p> | <p>Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid ar 3 Gorffennaf yn LIGC. Diben y digwyddiad oedd ystyried sut y gellid datblygu strategaeth gadwraeth genedlaethol ar gyfer cadw treftadaeth ddogfennol analog, yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiad Peach. Hwyluswyd y digwyddiad gan awdur yr adroddiad, Caroline Peach. Roedd 31 o gynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru'n bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys cyrff cenedlaethol, awdurdodau lleol, cadwraethwyr annibynnol a chyrff addysg uwch. Bydd grŵp llywio'n cael ei ddatblygu a bydd yn cyfarfod ddechrau fis Medi i lywio'r gwaith datblygu strategol.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp llywio strategaeth gadwraeth ar 6 Hydref. Bydd drafft o'r egwyddorion lefel uchel yn cael eu paratoi erbyn y Nadolig ac yn cael eu cylchredeg i gael sylwadau arnynt yn Ionawr.</p> <p>Gweithredwyd seilwaith cadwedigaeth ddigidol LIGC ac mae staff yn datblygu sgiliau i reoli adnoddau digidol drwy'r system a'r cysylltiadau â system gatalogio AtoM.</p> |
| <p>Parhau i gydweithio â Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW) a chymryd rôl arweiniol i fynd i'r afael â materion a nodi gofynion seilwaith ar gyfer rheoli a chynnal mynediad at wybodaeth ddigidol.</p> | <p>Mae gofynion ar gyfer datrysiaid technegol i aelodau Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW) yn cael eu nodi ac mae manyleb yn cael ei datblygu.</p> |
| <p>Ymgysylltu â llyfrgellwyr ac archifwyr ledled Cymru i drafod darparu metadata, a darparu hyfforddiant Disgrifio a Mynediad at Adnoddau (RDA) yn yr adrannau hynny (e.e. gan ddefnyddio gweminarau a dulliau technoleg ddigidol).</p> | <p>Mae'r Llyfrgell a Chasgliad y Werin Cymru'n mynd ati ar y cyd i baratoi Diwrnod Hyfforddiant Metadata ar gyfer y sector yng Nghymru. Mae anghenion hyfforddiant a gwybodaeth ym maes metadata wrthi'n cael eu casglu. Bydd cyfarfod cychwynnol ar gyfer catalogwyr sy'n gweithio ar System Rheoli Llyfrgelloedd Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru ganol Tachwedd a gwneir trefniadau pellach yn y flwyddyn newydd pan fydd y system yn weithredol.</p> |
| <p>Cyflawni camau allweddol i gefnogi prosiect Cynefin a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri sy'n cael ei arwain gan Gyngor Archifau a</p> | <p>Mae gwefan cymorth torfol cynefin.wales yn fyw a gweithredol gyda 757 o fapiau wedi eu digido a'u llwytho arno. Mae gan y safle 409 o wirfoddolwyr sydd wedi cyfrannu cyfanswm o 4120 o oriau hyd yma, yn geogyfeirio</p> |

| | |
|--|---|
| <p>Chofnodion Cymru (ARCW) ac wedi'i leoli yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r prif gamau i'r Llyfrgell yn ystod ail flwyddyn y prosiect tair blynedd hwn yn cynnwys recriwtio 300 wirfoddolwyr o bell a digido 700 o fapiau.</p> | <p>705 o fapiau a thrawsgrifio 1891 o dudalennau dogfennol. Mae hyn yn ychwanegol at waith gwirfoddol ar brosiectau lleol yng Ngwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Gŵyr, Ceredigion, Dwygyfylchi a Hiraethog sy'n dod i 2173 o oriau gwirfoddol.</p> <p>Cynhaliwyd digwyddiadau ym mhob cwr o Gymru yn cynnwys ers 1 Gorffennaf yn y Sioe yn Llanellwedd, ar dri safle yn yr Eisteddfod Genedlaethol, wyth sioe amaethyddol leol mewn cydweithrediad ag Undeb Amaethwyr Cymru, ac mewn dwy ffair hanes teulu a dau ddigwyddiad gwirfoddoli. Rhoddwyd dau gyflwyniad yn LIGC, a chynhaliwyd gweithdai yn LIGC ac yn Sir y Fflint a chynhelir nifer o rai eraill yn fuan.</p> |
| <p>Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu mynediad at ein casgliadau e.e. Cymru1914.org, Prosiect Bywydau'r Saint, Rhaglen Casgliad y Werin, Cymru dros Heddwch, Cymru yn y Rhyfel, Wikimedia, Hwb, Bywgraffiadur Cymreig.</p> | <p>Yn ystod Chwarter 1, mae'r tîm Mynediad Digidol sydd newydd ei ffurfio wedi dechrau sefydlu ei rôl o fewn strwythur newydd y Llyfrgell fel yr isadran sy'n gyfrifol am fynediad at gasgliadau a gwasanaethau digidol LIGC. Yn ystod y flwyddyn, bydd y tîm yn datblygu rôl allweddol o ran dethol, darparu ac ymgysylltu â defnyddwyr mewn perthynas â chynnwys digidol y Llyfrgell.</p> <p>Bywgraffiadur: Mae 15 o erthyglau bywgraffyddol newydd wedi eu hychwanegu at y Bywgraffiadur Cymreig mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth.</p> <p>Wikipedia: Mae prosiect Preswyl Wikipedia yn gwneud gwaith o bwys i annog mwy o gyhoedd i weithio ar ein casgliadau digidol. Rhyddhawyd dros 4000 o wrthrychau digidol i'r cyhoedd drwy Wicicommons ac mae 10 miliwn mewn 7 mis wedi edrych ar erthyglau Wikipedia sy'n cynnwys delweddau LIGC. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu i greu, golygu a chyfoethogi erthyglau Wikipedia (Golygathonau) ar nifer o bynciau ledled Cymru, yn cynnwys digwyddiad Cwpan Rygbi'r Byd yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd. Mae LIGC yn gweithio ar syniadau i ymgorffori'r gwaith ar ôl i'r prosiect preswyl cyntaf ddod i ben yn Ionawr 2016.</p> <p>Prosiect Cymru dros Heddwch: Mae cydweithio ar brosiect Cymru dros Heddwch Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn mynd rhagddo'n dda. Cwblhawyd gwaith ar ddull i drawsgrifio Llyfr Cofio Cymru ac rydym yn gweithio gyda thîm y prosiect ar raglen o ddigwyddiadau cyfranogi (gwirfoddolwyr i drawsgrifio cofnodion) a gynhelir ledled Cymru o 11 Tachwedd 2015 - targedir Ardaloedd Arloesi. Hefyd cynhaliodd LIGC Gynhadledd gyntaf Partneriaid y Prosiect ar 2 Hydref gyda chynrychiolwyr o wahanol sectorau a chyrrff yng Nghymru. Hefyd cynhaliwyd 2 ddiwrnod rhwydweithio gyda thîm y prosiect a thimau LIGC i feithrin cysylltiadau a rhannu arbenigedd e.e. addysg ac arddangosfeydd.</p> |

| | |
|---|--|
| | <p>Sefydliad y Merched: Mae LIGC wedi agor ei drysau am y tro cyntaf ar Wyl y Banc ym mis Awst ac wedi croesawu panelau canmlwyddiant Sefydliad y Merched.</p> <p>Eisteddfod a Sioe Amaethyddol Llanelwedd: Bu 1273 yn ymweld â standin LIGC yn Sioe Amaethyddol Cymru a bu 3651 yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd yr arddangosfeydd eu teilwra ar gyfer y ddau ddigwyddiad ac roedd ein standin yn yr Eisteddfod yn gartref i waith celf a grëwyd gan ddisgyblion lleol ym Meifod fel rhan o brosiect 'Myfyrdodau o Fathrafal' a ariannwyd gan Scottish Power.</p> <p>Cadair Eisteddfod R. Williams Parry - Cafodd hon ei harddangos ym Mhen-y-groes, Dyffryn Nantlle mewn digwyddiad i goffáu'r bardd - cafodd dros 100 o bobl y cyfle i weld y gadair.</p> |
| <p>Parhau â'r trafodaethau i ddatblygu ar y cyd Strategaeth Ddiwylliannol a Threftadaeth Ddigidol Cymru Gyfan gydag Amgueddfa Cymru, y Comisiwn Brenhinol a Chasgliad y Werin Cymru.</p> | <p>Bydd drafft cyntaf y Strategaeth sy'n cael ei datblygu ar y cyd ag Amgueddfa Cymru, y Comisiwn Brenhinol a Chasgliad y Werin Cymru yn cael ei chwblhau erbyn 30 Hydref 2015.</p> |
| <p>Cyfrannu at drafodaethau ar faterion digidol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, i nodi camau gweithredu mewn meysydd blaenoriaeth y gellir bwrw ymlaen â hwy ar y cyd i wella capasiti, gallu a rhannu sgiliau ac adnoddau. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Digidol hwn ym Mai 2015.</p> | <p>Fel aelod o'r Grŵp Technoleg Ddigidol, mae'r Llyfrgell yn cyfrannu'n weithgar at drafodaethau ar faterion digidol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, i nodi camau gweithredu mewn meysydd blaenoriaeth y gellir bwrw ymlaen â hwy ar y cyd i wella capasiti, gallu a rhannu sgiliau ac adnoddau.</p> |
| <p>Cyfrannu cynnwys treftadaeth ddiwylliannol Cymru at Gynllun Ymchwil Europeana yr UE a monitro'r defnydd a wneir o gynnwys y Llyfrgell ymysg Llyfrgelloedd Europeana: dadansoddiad o'r defnydd i'w ystyried gan y Tîm Gweithredol yn Rhagfyr 2015.</p> | <p>Mae staff ymchwil LIGC yn parhau i weithio ar brosiect Europeana Cloud a mynychwyd cyfarfod llawn y prosiect ym Mehefin 2015, wedi cynnal gan Brifysgol Caeredin. Mae ffocws y gwaith bellach yn symud tuag at ddatblygu llwyfan Ymchwil Europeana sy'n ceisio sicrhau bod data cyfun a chynnwys yn hygyrch a defnyddiol i ymchwilwyr.</p> <p>Mae trafodaethau ynglŷn â darparu cynnwys ychwanegol o Bapurau Newydd LIGC i Europeana Cloud yn mynd rhagddynt a chytunwyd ar y protocol ar gyfer darparu.</p> |